Y Cadeirydd
S4C,
Parc Tŷ Glas,
Llanisien,
Caerdydd,
CF14 5DU.

1af Mehefin 2007

Annwyl Syr,

Ysgrifennaf i gefnogi'n gryf eich bwriad i ddefnyddio S4C2 ar gyfer rhaglenni plant. Plant yw dyfodol unrhyw laith, a rhaid darparu'n briodol ar eu cyfer.

Deallaf fod nifer bach o bobl yn gwerthfawrogi gallu gwylio'r Cynulliad, ond swyddogaeth S4C yw darparu gwasanaeth teledu cyffredinol yn yr iaith Gymraeg i bobl Cymru, ac nid yw gweithgareddau'r Cynulliad yn cyfateb â'r gofynion hyn.

Gobeithiaf bydd trosglwyddo'r rhaglenni plant i S4C2 yn eich galluogi i ddangos mwy o raglenni i oedolion ar S4C1. Gobeithiaf hefyd y bydd modd, yn y pen draw, i S4C2 ddangos rhaglenni i oedolion yn yr hwyr yn ogystal er mwyn cynnig dewis i wylwyr Cymraeg.

Yn gywir,

DJC Davies